# CYNGOR SIR

# DYDD MERCHER, 10 CHWEFROR 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd P. Hughes-Griffiths [Cadeirydd]

Y Cynghorwyr**:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | D.J.R. Bartlett | S.M. Caiach | C.A. Campbell |
| J.M. Charles | A.P. Cooper | D.M. Cundy | A. Davies |
| G. Davies | I.W. Davies | J.A. Davies | S.L. Davies |
| T. Davies | W.R.A. Davies | T.T. Defis | T. Devichand |
| E. Dole | J.S. Edmunds | P.M. Edwards | H.A.L. Evans |
| L.D. Evans | W.J.W. Evans | W.T. Evans | M. Gravell |
| A.D. Harries | W.G. Hopkins | J.K. Howell | P.M. Hughes |
| I.J. Jackson | A. James | J.D. James | D.M. Jenkins |
| A.W. Jones | G.O. Jones | H.I. Jones | T.J. Jones |
| W.J. Lemon | A. Lenny | M.J.A. Lewis | D.J.R. Llewellyn |
| K. Madge | S. Matthews | E. Morgan | J. Owen |
| P.A. Palmer | D. Price | D.W.H. Richards | B.A.L. Roberts |
| H.B. Shepardson | A.D.T. Speake | L.M. Stephens | T. Theophilus |
| E.G. Thomas | G. Thomas | G.B. Thomas | J. Thomas |
| S.E. Thomas | W.G. Thomas | D.E. Williams | J. Williams |
| J.E. Williams | J.S. Williams | | |

**Hefyd yn bresennol:**
R. Sully, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
R. Staines, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 am - 12.40 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr T. Bowen, D.B. Davies, D.C. Evans, C. Higgins, K.P. Thomas, M.K. Thomas a J. Tremlett.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| S.M. Allen | 5 – Rhybudd o Gynnig; | Cwmni ei gŵr yn ymwneud â chynghori'r Cynulliad Cenedlaethol ar y mater; |
| J.M. Charles | 5 – Rhybudd o Gynnig; | Perchennog fferm wartheg; |
| J.A. Davies | 5 – Rhybudd o Gynnig; | Yn berchen ar wartheg; |
| S.L. Davies | 11 – Adolygiad o ffioedd a bennir yn lleol yn Adain Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu; | Yn gweithio gyda'r Scarlets ac ysgolion; |
| S.L. Davies | 15 – Cofnodion y Bwrdd Gweithredol [Trosglwyddo Asedau Cymunedol]; | Ysgrifennydd Pwyllgor Lles Dafen; |
| T. Defis | 5 – Rhybudd o Gynnig; | Tirfeddiannwr; |
| T. Devichand | 11 – Adolygiad o ffioedd a bennir yn lleol yn Adain Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu; | Landlord; |
| T. Devichand | 15 – Cofnodion y Bwrdd Gweithredol [Trosglwyddo Asedau Cymunedol]; | Cadeirydd Pwyllgor Lles Dafen; |
| E. Dole | 5 – Rhybudd o Gynnig; | Tirfeddiannwr; |
| J.S. Edmunds | 11 – Adolygiad o ffioedd a bennir yn lleol yn Adain Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu; | Landlord; |
| L.D. Evans | 5 – Rhybudd o Gynnig; | Tirfeddiannwr; |
| W.J.W. Evans | 5 – Rhybudd o Gynnig; | Tirfeddiannwr; |
| W.T. Evans | 5 – Rhybudd o Gynnig; | Tirfeddiannwr; |
| J.K. Howell | 5 – Rhybudd o Gynnig; | Yn berchen ar wartheg; |
| P.M. Hughes | 11 – Adolygiad o ffioedd a bennir yn lleol yn Adain Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu; | Yn meddu ar drwydded; |
| A. James | 5 – Rhybudd o Gynnig; | Ffermwr; |
| A.W. Jones | 9 – Adolygiad o Ddatganiad Polisi Trwyddedu; | Ysgrifennydd sefydliad trwyddedig ac ysgrifennydd cwmni; |
| A.W. Jones | 10 – Adolygiad o'r Polisi Hapchwarae; | Ysgrifennydd sefydliad trwyddedig ac ysgrifennydd cwmni; |
| A.W. Jones | 11 – Adolygiad o ffioedd a bennir yn lleol yn Adain Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu; | Ysgrifennydd sefydliad trwyddedig ac ysgrifennydd cwmni; |
| M.J.A. Lewis | Rhybudd o Gynnig; | Byw ar fferm sydd â gwartheg; |
| K. Madge | 15 – Y Bwrdd Gweithredol; | Aelod o Gyngor Tref Cwmaman |

| | | |
|---|---|---|
| | Cofnodion [Trosglwyddo Asedau Cymunedol]; | sy’n trafod trosglwyddo asedau; |
| P.A. Palmer | 5 – Rhybudd o Gynnig; | Tirfeddiannwr; |
| D.W.H. Richards | 5 – Rhybudd o Gynnig; | Byw ar fferm; |
| H. Shepardson | 9 – Adolygiad o Ddatganiad Polisi Trwyddedu; | Ysgrifennydd sefydliad trwyddedig; |
| H. Shepardson | 10 – Adolygiad o'r Polisi Hapchwarae; | Ysgrifennydd sefydliad trwyddedig; |
| L.M. Stephens | 5 – Rhybudd o Gynnig; | Tirfeddiannwr; |
| D.E. Williams | 5 – Rhybudd o Gynnig; | Yn berchen ar fferm sydd â gwartheg; |
| J.E. Williams | 5 – Rhybudd o Gynnig; | Tirfeddiannwr. |

**3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Nid oedd cyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR Y 13EG IONAWR 2015**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 13eg Ionawr 2016 yn gofnod cywir.**

**5. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD G.B. THOMAS**

(NODER: Roedd y Cynghorwyr S.M. Allen, J.M. Charles, J.A. Davies, T. Defis, E. Dole, L.D. Evans, W.J.W. Evans, W.T. Evans, J.K. Howell, A. James, P.A. Palmer, D.W.H. Richards, L.M. Stephens, D.E. Williams a J.E. Williams, wedi datgan buddiant personol sy’n rhagfarnu yn yr eitem hon yn gynharach, a bu iddynt adael Siambr y Cyngor tra oedd yr eitem yn cael ei thrafod).

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd G.B. Thomas:-

‘Mae nifer gynyddol o ffermydd gwartheg yn Sir Gaerfyrddin o dan gyfyngiadau bTB oherwydd cynnydd mewn twbercwlosis buchol. Yng ngoleuni methiant llwyr y rhaglen frechu annigonol ac anwyddonol bresennol, mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi a gweithredu rhaglen difa moch daear ym mhob ardal lle mae cynnydd sylweddol mewn TB buchol.’

Eiliwyd y Cynnig.

Rhoddwyd cyfle i'r Cynigydd siarad o blaid y Cynnig ac amlinellodd y rhesymau dros ei gyflwyno fel a nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi cefnogaeth i'r Cynnig ac ar ôl cynnal pleidlais,

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cynnig.**

6. **CWESTIYNAU GAN AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**
Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan yr Aelodau.

7. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**
Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

8. **CYFLWYNIAD GAN DWR CYMRU - GLAWLIF**
Gan gyfeirio at gofnod 7 yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 10fed Rhagfyr 2014, estynnodd y Cadeirydd groeso'n ôl i Mr. Steve Wilson a Mr. Fergus O'Brien o Ddŵr Cymru, a wahoddwyd i roi cyflwyniad i ddiweddaru'r Cyngor ar brosiect GawLif. Rhoddwyd manylion cynlluniau a gynhaliwyd hyd yma yn ardal Llanelli a Phorth Tywyn fel rhan o'r prosiect a'r amryw ffyrdd y caiff y gymuned leol ei hysbysu o'r gwaith. Y bwriad gwreiddiol oedd cwblhau'r gwaith erbyn 2025, ond yr oedd hyn bellach wedi'i ddwyn ymlaen i 2020. Hysbyswyd yr Aelodau hefyd o'r buddsoddiad yn Sir Gaerfyrddin mewn perthynas â dŵr glân a dŵr gwastraff.

Ar ôl y cyflwyniad cafwyd sesiwn holi ac ateb ac ar ôl hynny diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am gyflwyniad rhagorol a llawn gwybodaeth. Talwyd teyrnged hefyd i'r ffordd hwylus yr oedd Dŵr Cymru wedi ymgymryd â gwaith i drwsio prif bibell ddŵr a oedd wedi byrstio yn ardal Trap y bore hwnnw a dosbarthu dŵr potel lle'r oedd angen.

9. **ADOLYGIAD O DDATGANIAD Y POLISI TRWYDDEDU (DEDDF TRWYDDEDU 2013)**
(NODER: Roedd y Cynghorwyr A.W. Jones a H. Shepardson wedi datgan buddiant personol sy'n rhagfarnu yn yr eitem hon yn gynharach a gadawodd y ddau Siambr y Cyngor tra oedd yr eitem yn cael ei thrafod).
Hysbyswyd y Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd Ionawr 2016 (Cofnod 10 yn cyfeirio at hyn), wedi adolygu Polisi Trwyddedu'r Cyngor yr oedd gofyn iddo wneud, yn ôl deddfwriaeth, bob pum mlynedd i sicrhau ei fod yn adlewyrchu adborth gan y gymuned leol a bod yr amcanion statudol yn cael eu cyflawni.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-**

**'9.1 bod Datganiad diwygiedig y Polisi Trwyddedu yn cael ei gymeradwyo;**
**9.2 bod y Polisi Effaith Gronnol presennol yn cael ei gadw ar gyfer Heol yr Orsaf, Llanelli, fel y manylir yn Adran 10 o'r polisi;**
**9.3 bod rhagor o dystiolaeth yn cael ei chasglu mewn perthynas â'r posibilrwydd o fabwysiadu Polisi Effaith Gronnol ar gyfer Heol Awst, Caerfyrddin yn sgil yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori.'**

10. **ADOLYGIAD O'R POLISI HAPCHWARAE**
(NODER: Roedd y Cynghorwyr A.W. Jones a H. Shepardson wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a gadawodd y ddau Siambr y Cyngor tra oedd yr eitem yn cael ei thrafod).

Hysbyswyd y Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd Ionawr 2016 (Cofnod 11 yn cyfeirio at hyn), wedi adolygu Polisi Hapchwarae'r Awdurdod yr oedd gofyn iddo wneud, yn ôl deddfwriaeth, bob tair blynedd i sicrhau ei fod yn adlewyrchu adborth gan y gymuned leol a bod yr amcanion statudol yn cael eu cyflawni.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-**

**'bod y Polisi Hapchwarae diwygiedig, gan gymryd i ystyriaeth ganllawiau'r Comisiwn Hapchwarae wedi'u diweddaru, yn cael ei gymeradwyo.'**

**11. ADOLYGU FFIOEDD A BENNIR YN LLEOL YN ADAIN IECHYD YR AMGYLCHEDD A THRWYDDEDU**

(NODER: Roedd y Cynghorwyr S.L. Davies, T. Devichand, P.M. Hughes ac A.W. Jones wedi datgan buddiant personol sy'n rhagfarnu yn yr eitem hon yn gynharach a bu iddynt adael Siambr y Cyngor tra oedd yr eitem yn cael ei thrafod).

Hysbyswyd y Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd Ionawr, 2016 (Cofnod 12 yn cyfeirio at hyn), wedi ystyried strwythur ffioedd arfaethedig i'r Adain Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-**

**'11.1 hysbysebu'r ffioedd arfaethedig ar gyfer cerbydau hacnai/hurio preifat, fel y manylir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, am gyfnod o 28 diwrnod fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 er mwyn i bobl gyflwyno gwrthwynebiadau ac os nad oes gwrthwynebiadau bydd y ffioedd yn cael eu gweithredu o 1af Ebrill, 2016;**

**11.2 hysbysebu'r ffioedd mewn perthynas â Sefydliadau Rhyw, Tatŵio a Thyllu'r Croen, Diogelwch mewn Meysydd Chwaraeon, Ail-sgorio Hylendid Bwyd a Thrwyddedau Cychwyr a Chychod Pleser, fel y manylir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, am gyfnod o 28 diwrnod a bod y ffioedd yn cael eu gweithredu o 1af Ebrill, 2016.'**

**12. CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL CYNGOR SIR CAERFYRDDIN (DRAFFT) 2016-2020**

Hysbyswyd y Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd Ionawr, 2016 (Cofnod 17 yn cyfeirio at hyn), wedi ystyried fersiwn drafft o Gynllun Cydraddoldeb Strategol a amlinellai sut byddai'r Cyngor yn cyflawni'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r Dyletswyddau Penodol i Gymru.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-**

**'bod Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Caerfyrddin 2016-2020 yn cael ei gefnogi i'w weithredu o Ebrill 2016.'**

**13. Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG Y BWRIAD I GAU YSGOL FABANOD A MEITHRIN COPPERWORKS AC YSGOL GYNRADD MAESLLYN A SEFYDLU YSGOL GYNRADD NEWYDD**

Hysbyswyd y Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Chwefror 2016 (Cofnod 7 yn cyfeirio at hyn), wedi ystyried adroddiad a amlinellai gynigion i gau Ysgol Fabanod a Meithrin Copperworks ac Ysgol Gynradd Maesllyn. Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r Hysbysiad Statudol a gyhoeddwyd ar 3ydd Tachwedd 2015 ac a roddai fanylion bwriad y Cyngor i fwrw ymlaen â chau'r ysgolion.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-**

**'bwrw ymlaen â'i gynnig i gau Ysgol Fabanod a Meithrin Copperworks ac Ysgol Gynradd Maesllyn a gweithredu'r cynnig fel y manylir yn yr Hysbysiad Statudol dyddiedig 3ydd Tachwedd, 2015.'**

**14. SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - ADRODDIAD YR ASESIAD CORFFORAETHOL 2015**

Hysbyswyd y Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Chwefror, 2016 (Cofnod 12 yn cyfeirio at hyn), wedi ystyried Adroddiad Asesiad Corfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin 2015, a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi datganiad sefyllfa o alluedd a medr yr awdurdod i gyflawni gwelliant parhaus.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Mr. Jeremy Evans o Swyddfa Archwilio Cymru a gyflwynodd yr adroddiad a'i ganfyddiadau. Canmolai Mr Evans y Cyngor am feddu ar weledigaeth oedd wedi sefydlu'n dda ac a oedd yn cael ei sbarduno yn ei blaen gan gyd-arweinyddiaeth gadarn o du'r Bwrdd Gweithredol a'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod 'Cyngor Sir Caerfyrddin, gan amlygu uchelgais o ran ei weledigaeth, ynghyd ag arweinyddiaeth ar y cyd a llywodraethu mwy cadarn a thryloyw, yn sicrhau bod gwell canlyniadau i'w ddinasyddion er bod rhai dulliau gweithredu sydd wedi dyddio yn gallu cyfyngu ar gyflymder y cynnydd.'

Croesawyd yr adroddiad gan yr Aelodau a thalwyd teyrnged i'r cymorth a roddwyd gan staff yn ystod y broses archwilio. Diolchwyd hefyd i Uwch Swyddogion Rheoli'r Awdurdod, a oedd yn gyfrifol am weithredu gweledigaeth y Cyngor.
Diolchodd y Cadeirydd i Mr. Evans am ddod i'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-**

**'14.1 bod cynnwys Adroddiad Asesiad Corfforaethol 2015 yn cael ei gymeradwyo;**

**14.2 bod cynllun gweithredu'n cael ei lunio i ymdrin â'r Cynigion Gwella a geir yn yr Adroddiad.'**

**15. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR Y 4YDD IONAWR, 2016**

(SYLWER: Gan fod y Cynghorydd T. Devichand wedi datgan buddiant personol sy'n rhagfarnu yn yr eitem hon yn gynharach, gadawodd Siambr y Cyngor tra oedd yr eitem hon yn cael ei thrafod).

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod adroddiad y cyfarfod uchod yn cael ei dderbyn.**

______________________________ ______________________

**CHAIR** **DATE**